# Y Pwyllgor Menter, Arloesi a Rhwydweithiau Pwyllgor

## EIN(2) 06-06(p.5)

### Dyddiad: 20 Medi 2006
### Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
### Teitl: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru - Drafft Ymgynghori

#### Diben

1. Rhoi gwybod i'r Pwyllgor am y sefyllfa bresennol o ran y gwaith o ddatblygu Strategaeth Drafnidiaeth Cymru (Cysylltu Cymru), a holi'r Pwyllgor am ei farn ar brif gwestiynau'r ymgynghoriad.

#### Crynodeb

2. Cyhoeddwyd y fersiwn ddrafft ar Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ar 13 Gorffennaf 2006. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn sylwadau yw 14 Hydref 2006.

#### Cefndir

Mae'r fersiwn ddrafft ar Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn ddogfen lefel uchel sy'n ceisio dangos cyfraniad y maes trafnidiaeth i'r gwaith o gyflawni agenda strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'n cynnig cyfres o ganlyniadau y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio tuag atynt, a chyfres o ddangosyddion a fydd yn mesur cynnydd y gwaith hwnnw. Mae'r canlyniadau drafft a chwestiynau'r ymgynghoriad i'w cael yn Atodiad 1. Bydd cyfres o Gynlluniau Trafnidiaeth y Cynulliad yn dilyn y Strategaeth. Bydd y rhain (ynghyd â'r Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol y mae'r Consortia Trafnidiaeth Rhanbarthol yn eu llunio) yn ymhelaethu ar y modd y bydd y canlyniadau hyn yn cael eu cyflawni.

Mae copïau o'r Strategaeth ddrafft a'r daflen esboniadol wedi cael eu dosbarthu'n eang - gan gynnwys i grwpiau diddordeb ym myd busnes, yr amgylchedd a thrafnidiaeth; sefydliadau rhanbarthol; grwpiau sy'n cynrychioli lleiafrifoedd ethnig, pobl ifanc, pobl hyn a phobl anabl; grwpiau gwleidyddol ac undebau llafur; Awdurdodau sydd dros y ffin yn Lloegr a gweinyddiaethau'r DU. Mae'r Strategaeth ar gael ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae’r sylwadau sydd wedi dod i law hyd yn hyn i’r fersiwn ddrafft ar y Strategaeth wedi bod yn gadarnhaol ac yn adeiladol. Mae holl Aelodau'r Cynulliad wedi derbyn copi o'r Strategaeth.

Mae swyddogion yr Adran Menter, Arloesi a Rhwydweithiau wedi mynychu cyfarfodydd â llawer o'r grwpiau a restrir uchod ym mharagraff 4, er mwyn rhoi cyflwyniad i brif elfennau'r Strategaeth

Drafnidiaeth ac er mwyn ateb cwestiynau.

## Goblygiadau Ariannol

6. Mae cyllid ar gyfer yr ymgynghoriad wedi ei gynnwys yng nghyllidebau'r Adran. Bydd goblygiadau ariannol y Strategaeth ei hun yn cael eu hystyried wrth arfarnu Cynlluniau Trafnidiaeth y Cynulliad.

## Camau i'w Cymryd gan y Pwyllgor

7. Ystyried yr adroddiad hwn a chynnig sylwadau ar y fersiwn ddrafft ar Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.

**Andrew Davies AC**
**Y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau**
**Swyddog Cyswllt: Cath Mullin 02920 801375 neu e-bost catherine.mullin@wales.gsi.gov.uk**